



**WYTHNOS
ELUSENNAU
CYMRU**

**WELSH
CHARITIES
WEEK**

Pecyn Ymgyrchu

Cyflwyniad

Bydd Wythnos Elusennau Cymru yn cael ei chynnal am y tro cyntaf eleni rhwng 15-19 Tachwedd 2021.

Mae Wythnos Elusennau Cymru yn gyfle i ddathlu'r elusennau, mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol a'r gwirfoddolwyr sy'n cyfoethogi bywydau pob un ohonom yma yng Nghymru.

Nod yr wythnos yw dathlu a thaflu golau ar waith gwych grwpiau nid-er-elw o bob lliw a llun yng Nghymru.




Wedi'i drefnu gan CGGC, cefnogir Wythnos Elusennau Cymru gan ITV Cymru Wales.



Ynglŷn â'r pecyn hwn

Yn y pecyn ymgyrchu hwn, byddwch chi'n dod o hyd i syniadau i'ch helpu chi i gymryd rhan yn Wythnos Elusennau Cymru ac adnoddau i'ch helpu i ledaenu'r gair am yr wythnos ar hyd a lled y wlad.

Yn y pecyn ymgyrchu:

-  Sut i gymryd rhan
-  Negeseuon awgrymedig ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
-  Graffigau ac asedau cyfryngau cymdeithasol

Sut i gymryd rhan

Waeth a ydych chi'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda mudiad elusennol neu dim ond eisiau cydnabod elusen sy'n agos at eich calon, mae llwyth o ffyrdd o gymryd rhan yn Wythnos Elusennau Cymru.

1. SONIWCH AM ELUSEN NEU GRŴP GWIRFODDOL YNG NGHYMRU AR GYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Oes gennych chi hoff elusen sy'n agos at eich calon? Soniwch amdany'n nhw ar blatfform cyfryngau cymdeithasol o'ch dewis. Dywedwch wrthym ni pam eich bod yn eu hoffi a chofiwch ddefnyddio #WythnosElusennauCymru.

Mae gennym ni wahanol thema bob dydd ar y cyfryngau cymdeithasol. Byddwn ni'n canolbwyntio ar wahanol agweddau ar sut mae elusennau, grwpiau gwirfoddol a gwirfoddolwyr yn gwneud gwahaniaeth bob dydd ledled Cymru. Cymerwch ran drwy ddweud eich stori wrthym ni:

Dydd Llun - 15 Tachwedd 2021

Dywedwch wrthym am adeg lle gwnaeth elusen neu wirfoddolwr eich helpu chi neu hyd yn oed newid eich bywyd. Rhannwch eich stori drwy ddefnyddio #WythnosElusennauCymru a #diolchgarwch

Dydd Mawrth – 16 Tachwedd 2021

Dywedwch wrthym am y bobl rydych chi wedi cwrdd â nhw wrth weithio neu wirfoddoli gydag elusennau neu drwy eu cefnogi. Rhannwch eich stori gan ddefnyddio #WythnosElusennauCymru a #cysylltiadau a chofiwch dagio'r bobl y gwnaethoch chi gwrdd â nhw!

Dydd Mercher – 17 Tachwedd 2021

Dywedwch wrthym am foment falch rydych chi wedi'i chael wrth wirfoddoli neu weithio gydag elusen. Rhannwch eich stori gan ddefnyddio #WythnosElusennauCymru a #YGorau

Dydd Iau – 18 Tachwedd 2021

Gwnewch i ni chwerthin neu wenu drwy ddweud wrthym am rywbeth doniol neu dwymgalon a ddigwyddodd i chi pan oeddech chi'n ymwneud ag elusen neu fudiad gwirfoddol. Rhannwch eich stori gan ddefnyddio #WythnosElusennauCymru a #GwnewchINiWenu/#CodiGwên

Dydd Gwener – 19 Tachwedd 2021

Dywedwch wrthym ni yn eich geiriau eich hun pam mae elusennau yn haeddu eich cymorth drwy gydol y flwyddyn. Rhannwch eich barn gan ddefnyddio #WythnosElusennauCymru a #MwyNagWythnos/#NidWythnosYnUnig

2. RHOI

Wythnos Elusennau Cymru yw'r adeg berffaith i gyflwyno rhodd i'ch hoff elusen. Cofiwch, nid oes raid iddo fod yn rhodd ariannol – gallai fod yn fag o ddillad neu eitemau eraill i'ch siop elusen leol, neu gallech hyd yn oed roi ychydig o'ch amser drwy wirfoddoli (gweler isod).

Gallwch chi hefyd gymryd rhan yn ein her 'Cot pwy yw'r siaced hon?'

Her 'Cot pwy yw'r siaced hon?'

Meddyliwch am Joey yn 'Friends', chi'n gwybod, yr un lle mae'n gwisgo popeth sy'n eiddo i Chandler ... I roi tro Cymreig go iawn yn y gynffon, rydyn ni'n eich herio chi yn ystod Wythnos Elusennau Cymru i wisgo gymaint o eitemau o ddillad ag y gallwch chi mewn 60 eiliad i godi arian i'ch hoff elusen neu grŵp gwirfoddol (neu am hwyl!)

Rydym yn awgrymu eich bod yn gofyn gofyn i'ch ffrindiau a'ch teulu roi cymaint ag yr hoffent ei fentro am bob eitem o ddillad. Felly, os byddant yn rhoi £1 am bob eitem o ddillad a'ch bod chi'n llwyddo i wisgo deg peth mewn 60 eiliad, wel, mae hynny'n £10 i elusen o'ch dewis diolch yn fawr iawn.

I gymryd rhan, bydd angen y canlynol arnoch chi:

1. Pobl i'ch nodd
2. Llwyth o ddillad – yn ddelfrydol, pethau y gallwch chi eu gwisgo'n gyflym!
3. Rhywun i ffilmio eich ymgais ac amseru eich 60 eiliad (dim twyllo!)

Unwaith y byddwch chi wedi cael eich noddwyr, gofynnwch i rywun ffilmio eich ymgais yn ystod Wythnos Elusennau Cymru (15-19 November 2021). Cyn i chi ddechrau, gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrth y camera mai'r 'her Cot pwy yw'r siaced hon' yw hon ar gyfer Wythnos Elusennau Cymru a pha grŵp gwirfoddol yng Nghymru rydych chi'n codi arian ar ei gyfer.

Yna, gofynnwch i'ch cynorthwyydd abl ddweud 'ewch' ac amseru eich 60 eiliad. Unwaith y bydd yr amser ar ben â'r cwmwl o lwch wedi llonyddu, ewch ati i gyfri nifer yr eitemau o ddillad y gwnaethoch chi lwyddo i'w gwisgo a dywedwch eich sgôr derfynol wrth y gwylwyr gartref!


Yna, beth am rannu eich ymgais ar gyfryngau cymdeithasol ac (unwaith rydych chi wedi gwneud y mathemateg), rhowch wybod i ni faint rydych chi wedi'i godi. Cofiwch gynnwys yr hashnodau #CotPwyYwrSiacedHon ac #WythnosElusennauCymru.

SUT I ROI EICH RHODD

Ewch i wefan neu gyfryngau cymdeithasol eich achos dewisol i weld a oes ganddynt gyfarwyddiadau ar sut i godi arian ar eu rhan (e.e. efallai y bydd ganddynt eu tudalennau rhoi eu hunain neu ddefnyddio Just Giving, Local Giving ac ati). Os ydych chi'n defnyddio Instagram neu Facebook, gwiriwch i weld a yw eich hoff elusen wedi'i sefydlu i dderbyn rhoddion gan ddefnyddio eu hoffer codi arian.

Fel arall, ewch yn syth i un o'r llwyfannau isod i ddod o hyd i achos Cymreig a fyddai'n ddiolchgar am eich cefnogaeth. Os gallwch, ceisiwch ddewis cangen leol i sicrhau bod eich rhodd yn cefnogi gweithredu yma yng Nghymru.

- JustGiving
- Local Giving
- Crowdfunder
- Givey
- Total Giving



3. COFRESTRWCH I FOD YN WIRFODDOLWR

Oes gennych chi rywfaint o amser rhydd ac yn teimlo y gallech chi ei ddefnyddio i wneud ychydig o ddaioni? Beth am gofrestru i fod yn wirfoddolwr? Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn wirfoddolwr, mae www.gwirfoddolicymru.net yn lle da i ddechrau.



Negeseuon awgrymedig ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Bydden ni'n dwli cael eich help i gael mwy o bobl i gymryd rhan yn yr Wythnos Elusennau Cymru gyntaf erioed. Dyma rai negeseuon awgrymedig y gallwch chi eu defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol, mae croeso i chi eu haddasu, dim ond awgrymiadau yw'r rhain! Byddwch chi hefyd yn gweld graffigau y gallwch chi eu defnyddio i fynd gyda'ch negeseuon yn yr adran nesaf.

Chwerthin, crio, gwnewch yr her #CotPwyYwrSiacedHon... dim ond rhai o'r ffyrdd y gallwch chi gymryd rhan yn yr #WythnosElusennauCymru newydd, sy'n dod yn fuan! wythnoselusennau.cymru



Ar 15-19 Tachwedd rydym yn dathlu'r #WythnosElusennauCymru gyntaf erioed – i weld sut y gallwch gymryd rhan ewch i wythnoselusennau.cymru



15-19 Tachwedd yw'r #WythnosElusennauCymru gyntaf erioed. Ydych chi'n barod i ddathlu elusennau, mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr a'r hyn y maen nhw'n ei wneud i Gymru? wythnoselusennau.cymru



Beth am daflu golau ar waith gwych grwpiau nid-er-elw o bob lliw a llun yng Nghymru? Cymerwch ran yn #WythnosElusennauCymru – 15-19 Tachwedd 2021 wythnoselusennau.cymru







15-19 Tachwedd 2021

Dydd Llun - 15 Tachwedd 2021
Dywedwch wrthym am adeg lle gwnaeth elusen neu wirfoddolwr eich helpu chi neu hyd yn oed newid eich bywyd. Rhannwch eich stori drwy ddefnyddio #WythnosElusennauCymru a #diolchgarwch



wythnoselusennau.cymru



15-19 Tachwedd 2021

Dydd Mawrth – 16 Tachwedd
Dywedwch wrthym am y bobl rydych chi wedi cwrdd â nhw wrth weithio neu wirfoddoli gydag elusennau neu drwy eu cefnogi. Rhannwch eich stori gan ddefnyddio #WythnosElusennauCymru a #cysylltiadau a chofiwch dagio'r bobl y gwnaethoch chi gwrrd â nhw!



wythnoselusennau.cymru




15-19 Tachwedd 2021

Dydd Mercher – 17 Tachwedd
Dywedwch wrthym am foment falch rydych chi wedi'i chael wrth wirfoddoli neu weithio gydag elusen. Rhannwch eich stori gan ddefnyddio #WythnosElusennauCymru a #YGorau




wythnoselusennau.cymru



15-19 Tachwedd 2021

Dydd Iau – 18 Tachwedd
Gwnewch i ni chwerthin neu wenu drwy ddweud wrthym am rywbeth doniol neu dwymgalon a ddigwyddodd i chi pan oeddech chi'n ymwneud ag elusen neu fudiad gwirfoddol. Rhannwch eich stori gan ddefnyddio #WythnosElusennauCymru a #GwnewchNiWenu/#CodiGwên



wythnoselusennau.cymru



15-19 Tachwedd 2021

Dydd Gwener – 19 Tachwedd
Dywedwch wrthym ni yn eich geiriau eich hun pam mae elusennau yn haeddu eich cymorth drwy gydol y flwyddyn. Rhannwch eich barn gan ddefnyddio #WythnosElusennauCymru a #MwyNagWythnos/#NidWythnosYnUnig



wythnoselusennau.cymru